CDLl

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol 2007 - 2022

## Canllawiau Cynllunio Atodol

## Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg

**Mabwysiadwyd Mehefin 2015**

Cyngor Sir CEREDIGION

CEREDIGION County Council

# Cynnwys

1. Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol 1
2. Y Cefndir 2
3. Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol 10
4. Atodiad 1: Holiadur Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol: 14
5. Atodiad 2: Data Sylfaenol 24
6. Atodiad 3: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl adrannau etholiadol (Cyfrifiad 2011). 25

# 1. Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol

1.1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCC) hyn yn rhan o gyfres o nodiadau cyfarwyddyd sy'n ategu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn defnyddio'r CDLl er mwyn sicrhau bod datblygu'n digwydd mewn modd priodol ac mae'r polisïau sy'n ymwneud ag iaith yn ategu'r polisïau a'r canllawiau cenedlaethol. Er y bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n seiliedig ar bolisïau'r Cynllun Datblygu (fel y nodir yn rhan 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y CCC yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

1.1.2 Mae'r Canllawiau'n defnyddio ymchwil a gomisiynwyd gan gonsortiwm o awdurdodau cynllunio lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai (Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen, 2005). Bydd y Canllawiau, ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol, yn fodd o gyflawni un o brif themâu Strategaeth Gymunedol Ceredigion 2020, sef cefnogi cymunedau cynhwysol, dwyieithog a dynamig. Bydd y Canllawiau'n:

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith darpar ddatblygwyr o'r angen i roi ystyriaeth lawn i'r cysylltiadau rhwng datblygiadau a chymeriad y gymuned;

- Nodi cynigion i ddatblygu a fydd o'r cychwyn cyntaf yn cynnal neu'n cyfoethogi patrwm cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned;

- Nodi cynigion i ddatblygu y gellid eu haddasu wedi eu trafod yn rhai a fyddai'n cynnal neu'n cyfoethogi patrwm cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned; ac

- Nodi eithriadau lle dengys y dystiolaeth na fyddai'n bosibl addasu'r cynnig mewn modd a fyddai'n lleihau'r effaith ar batrwm cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned a bod rhesymau dilys dros argymell gwrthod y cais cynllunio.

1.1.3 Nid yw'r Canllawiau'n gosod dim polisïau'n annibynnol ar y CDLl, a chanllawiau atodol yn unig ydynt. Felly, yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, nid ystyriwyd bod angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) neilltuol arnynt. Mae canlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) ar y polisi perthnasol, Polisi DM01, i'w gweld yn Atodiad 3 Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd terfynol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Ebrill 2013).

## 2. Y Cefndir

2.1.1 Bwriedir i'r ddogfen hon gynnig canllaw ar y modd y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn ymdrin â datblygiadau a allai effeithio ar ddyfodol cymunedau ac ar yr iaith Gymraeg yn y cymunedau hynny. Ynghyd â materion eraill bydd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol pan wneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Byddai'n fuddiol i'r ymgeiswyr drafod eu ceisiadau gyda'r ACLl ymlaen llaw, er mwyn penderfynu pa fath o asesiad cymunedol ac ieithyddol sydd angen ei baratoi.

2.1.2 Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol, wrth feddwl am newidiadau, ystyried pob ffactor sy'n dylanwadu ar y sefyllfa a sicrhau bod y datblygiadau newydd arfaethedig yn briodol ac yn berthnasol. Mae'r broses cynllunio gwlad a thref yn rheoleiddio datblygiadau newydd ac mae'n elfen bwysig a dylanwadol lle mae siapio newid yn y gymdeithas yn y cwestiwn. Mae'r Gymraeg yn rhan anhepgor o wead llawer o gymunedau Ceredigion ac mae'n adlewyrchiad o'u hunaniaeth, eu traddodiadau a'u diwylliant.

2.1.3 Ers cyhoeddi Cylchlythyr 53/88 y Swyddfa Gymreig: Yr Iaith Gymraeg, Cynlluniau Datblygu a Rheoli Cynllunio, ym 1998, mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth greu polisïau defnydd tir ac yn y broses o benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

2.1.4 Er hynny, mae'n anodd iawn dadansoddi a phrofi'n bendant beth fydd union effaith datblygiad penodol ar iaith dros gyfnod o amser. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio ymdrin â'r broblem hon trwy edrych ar gymunedau mewn modd holistaidd, a rhoi sylw dyledus i iaith fel elfen sy'n rhan annatod o weithgareddau a bywyd y gymuned. Gellid ystyried y fethodoleg hon yn un gynaliadwy lle mae nifer o elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn dylanwadu ar ei gilydd a lle mae newid yn y naill agwedd yn effeithio ar y llall.

2.1.5 Cyflawnir hyn yn y ddogfen trwy gyflwyno methodoleg fwy dadansoddol i asesu effaith mathau a graddfeydd gwahanol o ddatblygu ar gymunedau ac iaith. Mae cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gwneud y cais cynllunio i gydymffurfio â'r canllawiau hyn ac i gyflwyno digon o wybodaeth i'r Awdurdod Cynllunio allu gwneud penderfyniad ynghylch y cais unigol.

### 2.2 Y Polisi Cynllunio Cenedlaethol

2.2.1 Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (2014) (PPW), ac fe geir cyngor technegol yn Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013) (TAN 20). Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol, pan fyddont yn cynhyrchu cynlluniau neu'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio, ystyried anghenion a lles yr iaith Gymraeg, ac o wneud hynny, gyfrannu at ei lles.

Yn ôl polisi cynllunio Cymru, paragraff 4.13.2:

"*Dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol a, lle y mae hynny'n bod, mae'n briodol ystyried hynny wrth lunio polisïau defnydd tir.*"

2.2.3 Yn ddiamau, felly, mae'r Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yng Ngheredigion lle mae oddeutu hanner y boblogaeth yn dweud eu bod yn gallu siarad yr iaith.

## 2.3 Y Polisi Cynllunio Lleol

2.3.1 Er mwyn cydnabod rôl yr iaith Gymraeg yng ngwead cymdeithasol Ceredigion, mae'r CDLl, ynghyd â'r canllawiau cenedlaethol, yn cynnig nifer o ddulliau polisi y bydd iddynt effeithiau cadarnhaol er nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r iaith Gymraeg. Manylir ynglŷn â'r rhain ym mharagraffau 8.7-8.11 y Cynllun Datblygu Lleol (Ebrill 2013) ac maent yn cynnwys y polisiau CDLl canlynol:

- S01: Twf Cynaliadwy
- S02: Datblygu yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol
- S03: Datblygu yn y Canolfanau Gwasanaethau Gwledig
- S04: Datblygu yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- S05: Tai Fforddiadwy
- DM01: Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Gymraeg
- DM08: Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog
- DM19: Y Dirwedd Hanesyddol a Diwylliannol

2.3.2 Er mai'r bwriad yw bod cefnogaeth i'r iaith Gymraeg ymhlyg yn y mesurau hyn, er mwyn gallu gwneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â cheisiadau cynllunio, efallai y bydd angen gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch effeithiau tebygol y datblygiadau ar y gymuned ac ar yr iaith Gymraeg ar ffurf Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol.

2.3.3 Felly, mae Polisi DM01: Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg yn cynnig ffordd i ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael gwybodaeth, lle bo angen, ynghylch yr effeithiau tebygol ar y gymuned a'r iaith Gymraeg, a bydd hynny yn ei dro'n ei gwneud hi'n bosibl penderfynu beth fyddai'r ffordd orau o fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau. Dywed y Polisi:-

Polisi DM01:
Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg

Er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fedru gwneud penderfyniadau cytbwys ynghylch a yw datblygiad arfaethedig yn debygol o beri effeithiau negyddol i gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau, bydd angen cyflwyno Asesiad o'r Effaith Ieithyddol gyda cheisiadau:

1. Pe bai'n arwain at ddatblygu tai newydd:
    a. mewn Aneddiadau Cyswllt ar gyfradd uwch na'r 4% o'r nifer anheddau ar 1 Ebrill 2007 mewn unrhyw gyfnod treigl 5 mlynedd,

b. mewn Canolfannau Gwasanaethau ar gyfradd uwch na'r hyn sydd yn Natganiad y Grŵp Aneddiadau (os yw wedi ei bennu),

2. Ar gyfer pob math arall ar ddatblygiad, lle bo graddfa'r datblygiad yn wahanol i'r hyn a ganiateir o dan bolisïau S03 ac S04.

Amcanion: 1 – 6, 8, 11, 16, 18

2.3.4 Mae'r polisi uchod yn pwysleisio'r angen i gynnal cymunedau a'r iaith Gymraeg, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, trwy'r broses cynllunio gwlad a thref. Mae hefyd yn cynnig sail dros wrthod ceisiadau cynllunio oni wneir hynny.

2.3.5 Mae effeithiau posibl datblygiad newydd ar y gymuned yn ystyriaeth berthnasol, ac ymhlith yr elfennau y gellid eu hystyried y mae'r isod**:**

- A yw'r datblygiad yn rhy fawr i'r anheddiad, a fyddai'r datblygiad yn rhoi pwysau gormodol ar y gwasanaethau lleol e.e. yr ysgol, y cyfleustodau ac ati
- Pan fo datblygu'n digwydd yn rhy gyflym i'r gymuned allu cymathu'r mewnlifiad yn raddol.

2.3.6 Lle gallai fod effeithiau negyddol, gellir defnyddio dulliau lliniaru megis datblygu fesul cyfnod i leihau'r effaith, er y dylai'r amod fod yn seiliedig ar asesiad o'r dystiolaeth leol, fel y nodir yn Adroddiad Archwilio CDLl Cyngor Sir Ceredigion. Daeth yr Archwiliad i'r casgliad hefyd y byddai'n briodol defnyddio asesiadau ar gyfer ceisiadau cynllunio unigol o dan rai amgylchiadau, oherwydd natur ieithyddol yr ardal.


## 2.4 Patrymau Ieithyddol Lleol

2.4.1 Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Ngheredigion gyda'r uchaf yng Nghymru, ac mae oddeutu 47% o'r boblogaeth breswyl â dealltwriaeth o'r iaith. Oherwydd bod canran y siaradwyr Cymraeg cyn uched mae'r iaith yn elfen bwysig o wead cymdeithasol Ceredigion ac mae'n briodol ystyried hynny wrth lunio polisïau defnydd tir. Fodd bynnag, dros ddeng mlynedd bu gostyngiad o 5% - a gwelir patrwm tebyg (er yn amrywio) mewn awdurdodau cyffiniol megis Gwynedd (-4%) a Sir Gaerfyrddin (-6%), sydd hefyd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Er hynny, mae nifer dda o adrannau etholiadol o hyd lle mae oddeutu 50% hyd at 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Felly, mae'r Gymraeg yn iaith fyw a siaredir yn helaeth yn yr ardaloedd hyn. Mae Ffigurau 1 a 2 yn dangos dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a Cheredigion yn ôl Cyfrifiad 2011.

2.4.2 Ni welwyd dirywiad unffurf o bell ffordd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg +3 oed (pobl dros dair oed) ledled y sir, ac o ddadansoddi'r data'n fanwl o'r data gwelir bod gwahaniaethau mawr rhwng adrannau etholiadol, wrth i wahanol brosesau fynd rhagddynt yn lleol. Yn 2011, ac eithrio Canol Aberystwyth, Gogledd Aberystwyth, Llanbadarn Fawr-Sulien, Llanfarian, Trefeurig, ac Ystwyth, gwelodd pob adran ostyngiad yn nifer y siaradwyr. Yr


oedd pethau'n wahanol yn 2001, a'r pryd hynny ac eithrio Capel Dewi, Lledrod, Llandyfrïog, Ceulanamaesmawr, Beulah, Aberaeron a Thregaron, gwelwyd cynnydd ym mhob adran.

2.4.3 Mae Atodiad 3 yn darparu ystadegau poblogaeth ar gyfer niferoedd a chanran (%) y siaradwyr Cymraeg fesul Ward Etholiadol




Mae'r map yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a'r gronfa ddata 2015.

**Ffigur 1.** Canran yr unigolion 3 oed a throsodd a oedd yn medru'r Gymraeg yn 2011 fesul ward etholiadol (Cyfrifiad 2011).




Mae'r map yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a'r gronfa ddata 2015.

**Ffigur 2.** Canran yr unigolion 3 oed a throsodd a oedd yn medru'r Gymraeg yn 2011 fesul ward etholiadol (Cyfrifiad 2011). Gweler Atodiad 2 am enwau'r Adrannau Etholiadol.

## 2.5 Asesu Effeithiau Datblygiadau

2.5.1 Oherwydd bod canran uchel o siaradwyr Cymraeg ym mron pob adran etholiadol, mae'n amlwg bod yr iaith yn rhan o wead cymdeithasol Ceredigion ac mae'n rhan o hunaniaeth, diwylliant a thraddodiadau'r Sir a'r ardal ehangach. Felly, mae angen ystyried yn ofalus sut y gallai datblygiadau newydd effeithio ar y patrwm sydd ohoni a gofyn a ydynt yn gydnaws â'r polisïau iaith lleol a chenedlaethol.

2.5.2 O ran tai, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi nodi yn Natganiadau Grwpiau Aneddiadau unigol Aberaeron (Llwyncelyn), Felin-fach/Ystrad Aeron, Llanilar, Llanrhystud, Pontarfynach, Pontrhydfendigaid a Thal-y-bont yn unig y bydd angen rheoli cyfradd ddatblygu'r tai newydd. Caiff hynny ei sicrhau drwy 'ddatblygu fesul cyfnod' o ran nifer yr unedau a ganiateir yn yr Anheddiad yn ystod unrhyw gyfnod o'r cynllun. Er enghraifft, os oes gan anheddiad ddyraniad o 90 o dai, bydd yr ACLl yn ceisio monitro'r cyflenwad a sicrhau y bydd oddeutu 30 o dai'n cael eu datblygu o fewn unrhyw gyfnod o 5 mlynedd yn ystod cyfnod y cynllun. Os nad dyna'r achos, bydd yr ACLl yn ystyried datblygu fesul cam i liniaru'r effeithiau. Peidied â drysu rhwng datblygu fesul cyfnod (dros gyfnod y cynllun) â'r dull rhyddhau 'fesul cam' sy'n ymwneud â sicrhau y cyflenwir safle (gweler Polisi LU05, Cyfrol 1A y CDLl). Oherwydd nad yw'r gyfradd ddatblygu o angenrheidrwydd yn ystyriaeth ym mhob anheddiad cynhwyswyd cyfeiriadau at y mater yn Natganiadau'r Grwpiau Aneddiadau lle ystyrid bod y gyfradd yn bwysig yn unig yn unol â maen prawf 1a Polisi DM01. Gydag Aneddiadau Cyswllt, ystyrir bod y gyfradd ddatblygu'n broblem pan fydd yn uwch na 4% o fewn unrhyw gyfnod treigl o 5 mlynedd yn unol â pholisi DM01, maen prawf 1b: Mae'r Cyngor yn monitro'r gyfradd ddatblygu mewn Aneddiadau Cyswllt yn fisol. Cyhoeddir y canlyniadau diweddaraf yma: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=17012.'

2.5.3 Felly, mae Polisi DM01 yn fodd i ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael gwybodaeth, lle bo angen, ynghylch effaith debygol datblygu ar y gymuned a'r iaith Gymraeg ac mae hynny yn ei dro'n ei gwneud yn bosibl penderfynu sut mae mynd i'r afael â'r effeithiau hynny. Ceisir yr wybodaeth honno parthed ceisiadau a fyddai'n golygu, o'u caniatáu, y byddai datblygu'n digwydd ar gyfradd neu raddfa wahanol i'r hyn a ragwelir ac a osodir ym Maen Prawf 1 ac 2 polisi DM01. Dylid gofyn i'r ACLl am gyngor cyn gwneud cais ynglŷn ag a ddylid darparu Asesiad ai peidio. Yn gyffredinol, ni fydd yr ACLl yn gofyn am Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol onid yw'n gymwys o dan Faen Prawf 1 neu 2 Polisi DM01.

2.5.4 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi diweddariad misol o lefel y twf yn yr Aneddiadau Cyswllt i ddangos pa mor agor ydynt at gyrraedd lefel dwf o 4% o fewn y cyfnod treigl 5 mlynedd cyfredol. Os na fydd lefel gyfrannol y twf yn ffurfio rhif cyfan bydd yr Awdurdod Lleol yn ei gysoni i'r rhif cyfan agosaf.

2.5.5 Petai'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol ar y gymuned ac/neu'r iaith Gymraeg, ac nid yw'n bosibl

lliniaru'r effaith honno, gellid gwrthod y cais. Mae arweiniad pellach ar yr effeithiau negyddol posib yn adran 4.1 Nodiadau. Fodd bynnag, yn gyntaf oll bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn chwilio am ddulliau lliniaru neu amrywio'r cynnig i helpu lleihau'r effeithiau posibl. Dyma rai o'r Mesurau Lliniaru y gallai'r ACLl eu trafod: Datblygu Fesul Cyfnod, Arwyddion Dwyieithog a Chynlluniau/Rhaglenni Iaith.

2.5.8 Mae canllawiau pellach ynghylch Asesiadau fel a ganlyn:

## 2.6 Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol

2.6.1 Er mwyn i'r ACLl fedru gwneud penderfyniad cytbwys ynglŷn ag a yw datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar wead cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau, bydd angen llunio Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol lle byddai'n peri bod cyfradd datblygiadau tai newydd:

- mewn Aneddiadau Cyswllt, yn uwch na 4% o nifer yr anheddau fel yr oedd ar y 1af o Ebrill 2007 mewn unrhyw gyfnod trreigl 5 mlynedd,
- mewn Canolfannau Gwasanaethau, yn uwch na'r hyn a bennir yn Natganiad y Grwpiau Aneddiadau (os yw wedi ei bennu) (Polisi DM01, maen prawf 1),

2.6.2 Hefyd, bydd angen Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol ar gyfer pob math arall ar ddatblygiad lle bo cyfradd y datblygiad yn wahanol i'r hyn a ganiateir o dan bolisiau S03 ac S04 (gweler maen prawf 2, Polisi DM01, Cyfrol 1A y CDLl,).

2.6.3 Mater i'r ACLl yw asesu unrhyw geisiadau cynllunio a bydd yn penderfynu a yw'r cais yn dod o fewn cwmpas unrhyw un o'r diffiniadau uchod. Os mai dyna fydd yr achos, bydd yr ymgeisydd yn dilyn yr arweiniad a roddir yn Atodiad 1 y ddogfen hon. Mae'n hollbwysig gofyn i'r ACLl am gyngor cyn cyflwyno'r cais oherwydd bydd yn gallu rhoi cyngor i'r ymgeisydd ynglŷn â'r angen am Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol.

2.6.4 Bydd yr Asesiad, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y cais cynllunio, megis a yw'n cydymffurfio â pholisïau'r CDLl, ystyriaethau sy'n ymwneud â thraffig neu'r amgylchedd, yn cynorthwyo'r ACLl naill ai i wrthod neu i roddi caniatâd cynllunio.

## 2.7 Gwerthuso'r Asesiad

2.7.1 Fel rhan o'r cais, bydd yr ymgeiswyr yn cael cyfle i gyflwyno tystiolaeth dros eu canfyddiadau ac i ddangos sut y byddai eu cynnig yn dod â buddiannau i'r gymuned leol. Hefyd, gellid cyflwyno mesurau lliniaru, sy'n berthnasol i'r cais, fel ymateb i unrhyw effeithiau negyddol sy'n perthyn i'r datblygiad ac a ddaeth i'r amlwg trwy'r broses asesu.

2.7.2 Ar ôl derbyn yr Asesiad bydd angen i'r ACLl wirio a chadarnhau'r ffeithiau a'r casgliadau sydd ynddo. Efallai y bydd yn anghytuno â rhai ohonynt ac mewn achosion o'r fath eir ati i gadarnhau'r ffeithiau ac i ddod i gytundeb

gyda'r ymgeisydd ynghylch y prif ystyriaethau cyn gynted â phosibl fel na fydd yn peri oedi diangen i'r cais. Hefyd, mae'n debygol y bydd sefydliadau ac unigolion o'r gymuned yn mynegi safbwyntiau a allai fod yn berthnasol o ran cynorthwyo'r ACLI i wneud penderfyniad.

2.7.3 Os gellir dangos yn bendant, ym marn yr ACLI, y bydd y datblygiad yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned ac/neu'r iaith Gymraeg, bydd modd i'r ACLI wrthod y cais am y rhesymau hynny'n unig.

**2.8 Monitro**

2.8.1 Bwriedir monitro union effaith y datblygiadau yn erbyn y dystiolaeth a gyflwynir mewn Asesiadau er mwyn ystyried effeithiolrwydd y broses a amlinellir yn y canllawiau hyn. Fel man cychwyn, mae'r ACLI wedi amlinellu, yn Atodiad 2 y CCC, y prif ystadegau a ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael. O bryd i'w gilydd, wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg, bwriedir croeswirio'r rhestr hon yng nghyd-destun monitro'r canllawiau a'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr ACLI yn darparu'r wybodaeth hon ar gyfer y cyhoedd, trwy ei rhoi ar wefan y Cyngor.

2.8.2 Mae'n ofynnol i bob ACLI baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sy'n edrych ar y flwyddyn ariannol flaenorol, a'i gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl ei fabwysiadu. Bydd yr AMB yn monitro effeithiolrwydd strategaeth a pholisiau'r CDLl ac effaith y CDLl ar yr Amcanion Cynaliadwyedd a nodir yn Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol y Cynllun. Trwy wneud hynny bydd yn nodi unrhyw faterion sydd angen sylw. Yn ogystal â'r Monitro Blynyddol trwy gydol y flwyddyn, bydd cyhoeddiadau, polisïau, adroddiadau a digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r CDLl yn cael eu nodi ac yn cael sylw os bydd hynny'n berthnasol.

2.8.3 Mae'r dangosyddion sydd wedi eu dewis i fonitro effeithiau posibl y CDLl ar yr iaith Gymraeg, sy'n rhan o fframwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol fel a ganlyn:

| Amcan Cynaliadwyedd | | Dangosydd | Ffynhonnell | Adrodd |
|---|---|---|---|---|
| 10a | Hybu defnydd yr iaith Gymraeg. | Nifer a % y rhai sy'n 3 oed a drosodd sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ym mlwyddyn y Cyfrifiad. | Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html | 2011-13 ac 2021-23 |
| | | % y rhai sy'n 3 oed a drosodd sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. | Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk | Yn flynyddol |
| | | Nifer a % y teuluoedd â phlant ysgol a'r Gymraeg yw iaith y cartref. | Cyfrifiad Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion | Yn flynyddol |

# 3. Asesiad o’r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol

## 3.1 Y Cefndir

3.1.1 Mae methodoleg yr Asesiad o’r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol yn cynnwys holiadur i alluogi’r datblygwr a’r ACLI i asesu effaith debygol datblygiad yn erbyn pum agwedd ar fywyd cymunedol:

**A.** **Nodweddion y Boblogaeth** (lefelau a nodweddion y boblogaeth honno);

**B.** **Ansawdd bywyd** (a thrwy hynny rhoi anogaeth i bobl aros, ymadael neu symud i’r gymuned);

**C.** **Ffactorau Economaidd** (yn effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth i wahanol grwpiau cymdeithasol yn ogystal â chostau byw ac, yn fwy penodol, costau tai);

**D.** **Y Seilwaith** (sydd ei angen i gynnal y gymuned, yn enwedig ysgolion, gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol); ac

**E.** **Agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar y gymuned** (a fynegir trwy hyfywedd y sefydliadau diwylliannol, yn enwedig y rhai sy’n effeithio ar bobl iau a phobl hŷn).

3.1.2 Mae poblogaeth sefydlog neu dwf cymedrol, ynghyd ag ansawdd bywyd uchel, economi cryf, seilwaith o safon dda a bywyd cymdeithasol a diwylliannol bywiog i gyd yn hanfodol i sicrhau cydlyniant a chynaliadwyedd cymunedol. Pan fo’r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned, mae ei thynged a’i lles yn elfen annatod o ffawd ehangach y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i unrhyw un o’r rhain, gall gael effaith negyddol ar y Gymraeg hefyd. Fodd bynnag, os yw’n sensitif i’r cyd-destun lleol e.e. yn cefnogi’r economi lleol, yna mae’r effaith yn llawer mwy tebygol o fod yn bositif.

3.1.3 Mae’r holiadur yn rhoi arweiniad ynghylch asesu effaith debygol datblygiad yn erbyn y pum agwedd ar gymuned, gyda’r bwriad o nodi’r effaith ar y gymuned yn gyffredinol a’r effaith ar y Gymraeg yn benodol.

3.1.4 Bydd angen i ymgeiswyr edrych ar yr ystadegau perthnasol sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol i wneud asesiad clir o’r ffynonellau data ar gyfer y pum agwedd gymunedol. Bydd yr ACLI yn cyhoeddi rhai o’r ffeithiau a’r dangosyddion perthnasol ar ei wefan i gynorthwyo’r ymgeisydd gyda chymaint â phosibl o’r agweddau (lle mae’r wybodaeth yn bodoli eisoes).

## 3.2 Y Fethodoleg a’r Asesiad

3.2.1 Mae methodoleg yr ACLI wedi ei dyfeisio trwy ystyried y mathau o fethodolegau asesu effaith a ddefnyddir eisoes mewn gwahanol agweddau ar gynllunio a datblygu. Fel arfer bydd y methodolegau hyn yn cynnwys naill ai tic / croes i ateb pob cwestiwn, neu sgôr rhif.

### 3.3 Sgorio'r Holiadur

3.3.1 Mae methodoleg yr ACLI yn broses oddrychol a'r nod yw canfod yr effeithiau tebygol a fyddai'n deillio o ddatblygiad. Wrth lanw'r holiadur, dylid ateb pob cwestiwn â sgôr positif, negyddol neu niwtral i adlewyrchu effaith dybiedig y datblygiad yn erbyn y pum agwedd. Rhaid rhoi rhif fel ateb i bob cwestiwn yn yr holiadur, ac mae rhif +1 yn effaith bositif dybiedig, rhif -1 yn effaith negyddol dybiedig, a 0 yn nodi effaith niwtral dybiedig.

3.3.2 Yn raddol, bydd sgoriau +1, -1 a 0 yn cael eu rhoi fel yr ateb i bob cwestiwn yn yr holiadur ar gyfer y pum set o ystyriaethau cymunedol. Mae'r gallu i gymharu opsiynau'n bwysig er mwyn gwneud asesiad, gan arwain yr asesydd at y dewis 'gorau' cyffredinol. Mae'r asesiad o effaith yn gallu bod yn sail i benderfyniadau ynghylch pa bynciau yn yr holiadur sy'n perfformio'n well nag eraill yn erbyn y pum ystyriaeth gymunedol drwy ddatgelu'r effeithiau posibl. Yr asesydd fydd yn gwneud y penderfyniad yn y pen draw. Os methwyd ag ateb unrhyw gwestiynau bydd angen i'r aseswyr gysylltu eto â'r ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad. Yn y broses asesu, os nad oes ateb i gwestiwn (h.y. ffurflen wag) caiff hynny ei ddileu o'r cyfrifiad cyffredinol. Bydd y matrics Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol (gweler isod) yn dangos pa opsiynau sydd â mwy o gyfraniadau buddiol neu, i'r gwrthwyneb, sydd â mwy o effeithiau niweidiol.

3.3.3 Nid ydym yn dweud y bydd adio a chymharu'r effeithiau hyn yn esgor ar benderfyniad terfynol yr ACLI. Fodd bynnag, bydd matrics sy'n nodi'r effeithiau hynny y mae iddynt effaith bositif neu negyddol gymharol uchel, ac sydd â sylwadau'n gysylltiedig, yn cynorthwyo'r sawl sy'n penderfynu i benderfynu beth yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy ymlaen. Bydd y pwysig neu'r pwyslais a roddir ar unrhyw gwestiwn yn amrywio yn ôl y gwahanol gynigion i ddatblygu, a'r sawl a fydd yn gwneud yr asesiad a fydd yn gwneud y penderfyniad. Bydd yn rhaid i'r ACLI wneud penderfyniad ynghylch faint o bwys y dylid ei roi ar yr atebion hynny i'r cwestiynau sy'n ymdrin â'r tymor byr neu'r tymor hir, er enghraifft. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r ymgeisydd.

### 3.4 Cyfrifo'r Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol

3.4.1 Rhan olaf y fethodoleg asesu yw'r Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys tabl cryno mesuradwy sy'n caniatáu i'r asesydd ddatblygu sgôr positif, negyddol neu niwtral sy'n gysylltiedig â'r effeithiau tybiedig sy'n debygol o ddigwydd. Bydd y sgôr wedyn yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu cais am ganiatâd cynllunio.

3.4.2 Bydd pob un o'r cwestiynau yn y pum set o elfennau bywyd cymunedol – A. nodweddion poblogaeth, B. ansawdd bywyd, C. ffactorau economaidd, D. darpariaeth seilwaith ac E. elfennau cymdeithasol a diwylliannol – yn cynhyrchu ystod o sgoriau a elwir yn *fynegai sylfaenol.* Yna gellir defnyddio'r 19 sgôr i gyfrifo Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol sef, mewn geiriau eraill, sgôr cyfartalog yr holl atebion. Mae sgôr rhwng 0.1 ac 1.0 yn dangos effaith bositif; mae sgôr o 0 yn dangos effaith niwtral; mae sgôr

rhwng -1.0 ac -0.1 yn dangos effaith negyddol, gyda’r ffigurau gwirioneddol yn dangos y difrifoldeb cymharol tybiedig yr effaith.

3.4.3 Mae’r tabl cryno’n cyfrifo *mynegai dimensiynol* yn awtomatig, sy’n sgôr gymedrig ar gyfer pob un o elfennau’r bywyd cymunedol - cymedr ar gyfer poblogaeth, cymedr ar gyfer ansawdd bywyd; cymedr ar gyfer ffactorau economaidd; cymedr ar gyfer seilwaith; a chymedr ar gyfer materion cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi aseswyr i gymharu’r sgôr cymedrig ar gyfer pob un o’r pump elfen, gan gydnabod yr effeithiau tybiedig mwyaf, ac unrhyw gyfnewidiadau posibl, rhwng y naill elfen a’r llall.

3.4.4 Yn ddibynnol ar flaenoriaethau polisi’r ACLl, amcanion y cynllun datblygu, a phroffil economaidd gymdeithasol y gymuned lle cynigir datblygu, gall yr asesydd (yr ACLl) roi mwy o bwys ar un neu ragor o’r pum elfen yn ystod y rhan yma o’r asesiad pan ddefnyddir y Mynegai Effaith Gyffredinol i wneud penderfyniad. Yr ACLl fydd yn penderfynu a yw am roi mwy o bwys ar un neu fwy o’r elfennau, a bydd yn cyfiawnhau hynny ar sail yr amgylchiadau lleol a’r blaenoriaethau polisi. Fel arall, gall yr asesydd (yr ACLl) benderfynu bod pob un o’r pum elfen yr un mor bwysig a’i gilydd a rhoi’r un pwys ar bob un ohonynt.

3.4.5 Yna gellir defnyddio’r Sgôr Mynegai Sylfaenol cyffredinol i gyfrifo *Sgoriau Effaith ar Iaith.* Caiff y sgoriau hyn eu rhannu’n dri amrywiad – er mwyn dangos y pwys a roddir ar yr iaith yn yr ardal neilltuol honno: a roddir pwys ‘uchel’ ar yr iaith; a roddir pwys ‘canolig’ ar yr iaith yn; ac a roddir pwys ‘isel’ ar yr iaith. Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo’n awtomatig.

3.4.6 Mater i’r ACLl yw penderfynu a oes arwyddocâd ‘uchel’, ‘canolig’ neu ‘isel’ i’r iaith, a defnyddir lleoliad y datblygiad arfaethedig ynghyd â chanlyniadau’r Proffilio Ieithyddol fel sail i hynny.

### 3.5 Arweiniad ar gyfer paratoi Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol

3.5.1 Llanwch yr holiadur, a rhowch gymaint o fanylion ag y medrwch chi. Ar ôl y prif gwestiwn, ychwanegwch sylwadau pellach ynghylch y materion allweddol. Mae gofynion pob cwestiwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol | |
| b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol yn seiliedig ar Gyfrifiad 2001 a 2011 y Deyrnas Unedig) | |
| c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED yn gyffredinol | |
| d) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith BOSITIF? | |

3.5.2 Mae Rhan (a) ar ôl pob cwestiwn yn gyfle i wneud asesiad cyffredinol; mae Rhan (b) yn ddatganiad o dystiolaeth, sydd fel arfer yn seiliedig ar wybodaeth ystadegol; Rhan (c) yw'ch asesiad chi ar sail tystiolaeth o'r effaith gyffredinol ar y gymuned, ac mae rhan (d) yn ymdrin â'r mesurau lliniaru posibl. Bydd angen bwydo'r asesiad rhifol a roddir yn Rhan (c) pob cwestiwn i mewn i'r mynegai asesu effaith gyffredinol ar ddiwedd yr holiadur.

3.5.3 Er enghraifft, yn achos:

Cwestiwn 1: A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth a allai: Effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg (yn negyddol / yn bositif)?

Bydd angen i chi ateb ydyw neu nac ydyw ac yna ymateb i gwestiynau (a)-(d) uchod.

Bydd angen cymhwyso (a) hyd (d) hefyd i is-gwestiynau cwestiwn 1, sef: A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth a allai: Arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

3.5.4 Mae arweiniad pellach i'w gael ynglŷn ag ateb pob un o'r cwestiynau ar ddiwedd yr holiadur (gweler adran 4.1 Nodiadau).

## 4. Atodiad 1: Holiadur Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol:

**Nodweddion y Poblogaeth**

| **1. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth? Os yw, pa un? | |
| Os ydyw, a allai effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg (yn negyddol / yn bositif)? neu | |
| Os felly, a allai arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg? | |

| **2. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn mewnfudo?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn mewnfudo? | |
| Os ydyw, a allai hynny achosi cynnydd yng nghanran yr aelwydydd di-Gymraeg? | |
| Os felly, a fydd y newid yn barhaol neu a fydd dros dro? | |

| **3. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allfudo?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allfudo? | |
| Os ydyw, a yw'r broses o allfudo'n debygol o olygu colli aelwydydd Cymraeg eu hiaith? | |
| Os felly, a fydd y newid yn barhaol neu a fydd dros dro? | |

**4. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid strwythur oedran y gymuned? A allai:**

| | |
|---|---|
| Olygu y bydd pobl ifanc / canol oed / hŷn yn gadael / yn symud i'r ardal, gan arwain at: | |
| Newidiadau yn y patrymau gweithgareddau traddodiadol, gan arwain at awydd cryfach i ymadael? | |
| Tensiwn cymdeithasol / rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol yn chwalu? | |
| Effeithio ar yr iaith Gymraeg, ac os felly beth yw'r effeithiau tebygol? | |

## B. Ansawdd Bywyd

**5. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar iechyd y bobl leol? A Allai:**

| | |
|---|---|
| A allai gynyddu'r risg o salwch, a thrwy hynny wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw? | |
| A allai wneud bywyd yn ddrutach, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol? | |
| A allai achosi effeithiau eraill ar iechyd pobl leol? Os felly, beth yw natur yr effeithiau posibl hynny? | |

**6. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar amwynder yr ardal leol?**

| | |
|---|---|
| A allai arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, a thrwy hynny wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw? | |

**7. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at fygythiad o gynnydd mewn troseddau neu drais yn y gymuned?**

| | |
|---|---|
| A allai gynyddu risg troseddau neu drais, a thrwy hynny wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw? | |

## C. Ffactorau Economaidd

| **8. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A allai beri bod<br><br>• Busnesau;<br>• Busnesau Cymraeg<br><br>lleol yn cau, oherwydd: | |
| Gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth leol? | |
| Cynnydd yn nifer y preswylwyr di-Gymraeg? | |
| Cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol / fanteisiol? | |

| **9. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar swyddi lleol?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A allai greu swyddi lleol yn gyffredinol? | |
| A allai greu swyddi ar gyfer y boblogaeth leol - Cymraeg ei hiaith - (o bosibl oherwydd bod pobl leol Cymraeg eu hiaith yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol)? | |
| A allai fod yn fygythiad i swyddi lleol yn gyffredinol? | |
| A allai fygwth swyddi'r boblogaeth leol - Cymraeg ei hiaith - (trwy achosi busnesau lleol i gau, o bosib)? | |

| **10. A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A allai arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol o ganlyniad i arallgyfeirio economaidd? | |
| A allai arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol - Cymraeg ei hiaith - o ganlyniad i arallgyfeirio economaidd? | |
| A allai arwain at gynnydd yn nifer y bobl ddi-Gymraeg sy'n mewnfudo i'r ardal? | |

| **11. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar lefelau cyflogau?** | |
|---|---|
| A allai arwain at gynnydd / lleihad mewn cyflogau o ganlyniad i gystadleuaeth ymhlith y gweithlu / busnesau? | |

| **12. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar gost gyfartalog tai?** | |
|---|---|
| A allai orfodi<br>• pobl leol;<br>• pobl leol - Cymraeg eu hiaith<br>i adael y gymuned? | |
| A allai arwain at gynnydd mewn digartrefedd / straen o ran tai ymhlith:<br>• aelwydydd lleol;<br>• aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith? | |
| Atal:<br>• pobl leol;<br>• pobl leol - Cymraeg eu hiaith<br>rhag dychwelyd i'r ardal / y gymuned? | |

**D. Y Seilwaith**

| **13. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?** | |
|---|---|
| A allai fygwth / diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i gynnydd / lleihad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr? | |
| Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg eu hiaith a rhai di-Gymraeg? | |

| **14. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y ddarpariaeth gofal iechyd?** | |
|---|---|
| A allai fygwth / diogelu cyfleusterau / gwasanaethau lleol? | |
| A allai fygwth / diogelu cyfleusterau / gwasanaethau lleol - trwy gyfrwng y Gymraeg? | |

| **15. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar ddarpariaeth y cyfleusterau / gwasanaethau cymunedol neu hamdden lleol neu gyfranogiad ynddynt?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A allai fygwth / diogelu gwasanaethau / cyfleusterau cymunedol neu hamdden neu gyfranogiad yn y<br><br>• Cymunedau lleol;<br>• Cymunedau Cymraeg eu hiaith,<br><br>a thrwy hynny orfodi rhai carfanau o'r boblogaeth i adael yr ardal / y fro e.e. pobl hŷn neu anabl, neu'r ifanc? | |

| **16. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, fel siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarnau?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A allai fygwth / diogelu siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarnau mewn:<br><br>• Cymunedau lleol;<br>• Cymunedau lleol Cymraeg eu hiaith,<br><br>a thrwy hynny orfodi rhai carfanau o'r boblogaeth i adael yr ardal / y gymuned e.e. pobl hŷn neu anabl, neu'r ifanc? | |

**Agweddau Cymdeithasol a Diwylliannol**

| **17. A oes perygl y gallai'r datblygiad arwain at densiwn cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned?** |
|---|

| | |
|---|---|
| A allai gael effaith anghytbwys sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill? | |
| A allai fynd yn groes i werthoedd traddodiadol rhai rhannau o'r gymuned? | |

**18. A allai'r datblygiad arwain at newidiadau i'r traddodiadau/diwylliant Cymreig lleol?**

| | |
|---|---|
| A allai beri i aelwydydd lleol - Cymraeg eu hiaith - yn symud o'r ardal? | |
| A allai arwain at gynnydd sylweddol mewn aelwydydd di-Gymraeg o'r tu allan i'r ardal? | |
| A allai arwain at wanhau cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill? | |
| A allai arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth dulliau traddodiadol o fyw? | |
| A allai effeithio ar aelwydydd lleol - Cymraeg eu hiaith - trwy gyflwyno / gyflymu newidiadau cymdeithasol? | |

**19. A yw'r datblygiad yn debygol o effeithio ar grwpiau gwirfoddol / gweithgareddau / grwpiau ieuenctid lleol?**

| | |
|---|---|
| A allai olygu y byddai pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol yn symud o'r ardal; oherwydd: | |
| Cynnydd mewn diweithdra / straen economaidd? | |
| Cynnydd ym mhrisiau tai / straen o ran tai? | |

## 4.1 Nodiadau

Mae **Cwestiwn 1** yn ystyried mater sylfaenol twf neu leihad y boblogaeth o ganlyniad i ddatblygu. Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau'n tueddu i sefydlogi'r poblogaeth neu i symbylu twf. Ond un cwestiwn sylfaenol yw a wnaiff y datblygiad arwain at dwf cynhenid (e.e. creu swyddi lleol a chaniatáu i bobl a fyddai fel arall wedi gadael y gymuned aros yno) neu a yw'n debygol o gynyddu mewnfudo. Er bod mewnfudo yn aml yn rym cadarnhaol mewn cymunedau gwledig, mae lefelau twf sylweddol yn debygol o effeithio ar y cydbwysedd cymdeithasol (o ran strwythur oedran ac incwm, a chefndir diwylliannol gymdeithasol). Rhaid ystyried a fydd twf y boblogaeth yn effeithio'n gadarnhaol neu'n andwyol ar sefyllfa'r iaith fel rhan o wead cymdeithasol y gymuned. Mae'r farn yn hynny o beth yn debygol o dynnu ar ddata'r Cyfrifiad a'r ffynonellau data eraill sydd ar gael.

Mae **Cwestiwn 2** yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â mater mewnfudo. Mae rhai datblygiadau'n debygol o achosi ad-drefnu cymdeithasol. Er enghraifft, nid yw datblygiad preswyl at ddibenion ymddeol mewn cymuned sydd â strwythur oedran ifanc yn debygol o ddiwallu'r anghenion lleol a bydd yn achosi newid cymdeithasol parhaol. Yn hynny o beth eto, mae'r farn yn debygol o dynnu ar ddata'r Cyfrifiad a'r ffynonellau data eraill sydd ar gael.

Mae **Cwestiwn 3** yn ymwneud ag allfudo. Nid yw'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn gysylltiedig ag allfudo, gyda rhai eithriadau amlwg. Os caiff gwasanaethau hanfodol megis siopau neu ysgolion eu troi'n dai preswyl gall hynny olygu y bydd pobl yn llai tebygol o aros yn y gymuned. Gall defnydd tir na fyddai pobl yn dymuno byw'n agos ato (cyfleusterau gwastraff neu losgyddion) neu rai sy'n cael eu hystyried yn amhriodol mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell (gan gynnwys canolfannau lloches mawr) gael effaith debyg. Unwaith eto, bydd angen barnu yn eu cylch ar sail yr asesiadau blaenorol.

Mae **Cwestiwn 4** yn cydnabod mai'n bur anaml y mae symudiadau neu golledion yn y boblogaeth yn unffurf ar draws y proffil oedran. Mae datblygiadau'n debygol o effeithio ar bobl iau, teuluoedd, pobl sengl neu aelwydydd hŷn mewn gwahanol ffyrdd. Gall datblygiad sy'n hybu ymddeoliad olygu y bydd llai o dai ar gyfer y bobl iau. Gall datblygiad nad yw'n creu gwaith na thai sy'n addas at anghenion pobl iau arwain, yn ddiarwybod, at gau'r grŵp hwnnw allan o'r gymuned leol. Mae datblygiadau nad ydynt yn hybu nac yn helpu cynnal cydbwysedd cymdeithasol yn debygol fod yn anghynaladwy'n gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Mae **Cwestiwn 5** yn ceisio nodi'r cysylltiad rhwng iechyd a chymuned. Mae iechyd pobl yn gallu dirywio os yw eu tai'n anaddas i'w hanghenion; os yw'r ffyrdd neu'r seilwaith yn wael neu os oes datblygiad diwydiannol yn cyfrannu at amgylchedd byw o ansawdd wael. Yn yr un modd, os nad oes tir glas integredig mewn datblygiad gall hynny amharu ar brydferthwch yr ardal. Efallai mai'r un yw effaith y fath brosesau ar breswylwyr Cymraeg a di-gymraeg fel ei gilydd. Fodd bynnag, os mai Cymraeg yw prif iaith y pentref – neu os yw'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol – yna gallai'r dirywiad yn ansawdd bywyd pobl effeithio ar sefydlogrwydd y gymuned; bydd pobl sy'n gallu fforddio symud i ffwrdd yn ymadael, gan hollti'r gymdeithas. Yr ochr arall i'r geiniog, wrth gwrs, yw bod mewnfudwyr di-Gymraeg yn llai tebygol o symud i

ardaloedd llai atyniadol, oni bai mai'r gost yw'r ystyriaeth bennaf iddynt hytrach nag ansawdd bywyd ac apêl esthetig.

Mae **Cwestiwn 6** yn ymdrin â mater cysylltiedig. Byddai unrhyw ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd yn cael effaith debyg, gan leihau apêl trefi, pentrefi neu gymdogaethau neilltuol. Gallai lleihau ansawdd yr amgylchedd / yr apêl esthetig, neu amwynderau cyffredinol, beri i bobl sydd â mwy o arian i'w wario ymadael, gan arwain at fewnlifiad o bobl ar incwm is. Mae hyn yn debygol o effeithio ar gydbwysedd y trigolion Cymraeg / Saesneg eu hiaith yn ogystal â chydbwysedd gwahanol grwpiau incwm a chymdeithasol. Rhaid i gymunedau gynnig safon neilltuol o ansawdd bywyd os ydynt am aros yn gymdeithasol sefydlog a chydlynol.

Mae **Cwestiwn 7** yn canolbwyntio ar droseddu: mae troseddu - fel iechyd ac amwynderau - yn cael dylanwad tymor hir ar sefydlogrwydd a chydlyniant cymdeithasol. Mewn cymuned gynaliadwy mae troseddu'n cael ei gadw ar lefel resymol. Eto, petai troseddu'n cynyddu - neu ofn troseddu'n cynyddu - gallai hynny beri i bobl symud i ffwrdd neu fe allai wrthweithio twf cytbwys y boblogaeth. Mae hefyd yn arwain at straen personol sy'n gallu gwaethygu trafferthion iechyd. Mae'r holl ffactorau yma sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd yn bygwth cydbwysedd cymdeithasol: bydd pobl sy'n gallu fforddio symud i ffwrdd yn gwneud hynny; ac mae'n bosibl mai pobl ar incwm isel sydd heb lawer o ddewis lle maent yn byw fydd y grŵp mwyaf mewn cymunedau o'r fath. Mae anghydbwysedd cymdeithasol o'r fath yn debygol o fod yn andwyol i'r iaith Gymraeg, gan mai dim ond mewn cymunedau cytbwys a chynaliadwy y gall ffynnu.

Mae **Cwestiwn 8** yn ymwneud â dimensiwn economaidd y gymuned. Gall datblygiadau newydd arwain at sefydlu neu gau / lleihau maint busnesau mewn ardal, a gall hynny effeithio ar nwyddau a phrisiau nwyddau. Gallai hynny beri na fyddai rhannau o'r boblogaeth yn gallu cael gafael ar y nwyddau hynny, neu fe allai olygu bod mwy o ddewis i'r preswylwyr. Mae'n allweddol penderfynu i ba raddau y dylid lleoli ystod a dewis o fusnesau yn agos at ei gilydd ac a yw hynny o fantais neu anfantais i gymunedau.

Mae **Cwestiwn 9** yn cydnabod y gall datblygiadau newydd effeithio ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn lleol, yn ddibynnol ar amrywiaeth y sgiliau sydd ar gael. Gall prinder rhai sgiliau arwain at newid y proffil cymunedol wrth i weithwyr benderfynu symud i rywle lle gallant ddefnyddio'u sgiliau'n effeithiol.

Mae **Cwestiwn 10** yn mynd â hynny gam ymhellach gan gydnabod y gall datblygiad newydd greu cyfleoedd gwaith newydd, a'r angen am sgiliau penodol, e.e. efallai y byddai angen defnyddio mwy ar y boblogaeth leol mewn datblygiad hamdden / twristiaeth yn y diwydiannau diwylliannol, a'r iaith Gymraeg o'r herwydd yn un o sgiliau'r farchnad lafur. Byddai'n rhaid cynnal asesiadau i ganfod y potensial ar gyfer arallgyfeirio economaidd a'r gallu i dderbyn gweithluoedd newydd.

**Cwestiwn 11** Gallai cystadleuaeth rhwng sectorau cyflogaeth arwain at wneud penderfyniadau o fewn y farchnad lafur ynglŷn â lle chwilio am swydd ac ansawdd dybiedig y swyddi sydd ar gael. Mewn economi byd-eang cystadleuol, gall cymunedau sy'n dibynnu ar gyflogaeth neilltuol wynebu newidiadau andwyol mewn cyflogau a chystadleuaeth fusnes anffafriol.

**Cwestiwn 12** Mae amrywiadau yn y galw am dai yn debygol o arwain naill ai at godi neu ostwng prisiau tai ac mae hynny'n debygol o gael effaith anghymesur ar wahanol rannau o'r gymuned. Gall prisiau tai, o'u cysylltu â mathau eraill o bwysau sy'n ymwneud â thai, effeithio ar allu rhai pobl i brynu tai. Gall hefyd achosi mewnfudo neu allfudo ynghyd ag effaith benodol ar ddefnydd yr iaith mewn cymuned. Gall datblygiadau tai a phrisiau tai cyfnewidiol hefyd arwain at gynnydd mewn cymudo. Mae hyn yn gallu bod yn symptom o newidiadau mwy cyffredinol yn y farchnad dai.

Mae **Cwestiwn 13** yn ymwneud â chynaliadwyedd y cyfleusterau addysgol lleol. Gall datblygiad arwain at sefyllfa lle mae gwasanaethau lleol hanfodol, fel ysgolion, ar eu hennill oherwydd bod mwy o blant. Os nad oes dim datblygu'n digwydd o gwbl a does dim newid ym mhroffil oedran y gymuned, gall hynny fygwth parhad ysgol at y dyfodol. Os nad oes digon o ddarpariaeth a dewis o dai gall hynny hefyd effeithio ar benderfyniadau ynghylch a fydd teuluoedd iau sydd ar dyfu yn aros mewn ardal neilltuol ynteu a fyddant yn symud i ffwrdd. Mae mwy a mwy o deuluoedd yn gwneud penderfyniadau penodol y dyddiau hyn yng nghyswllt dewis ysgol i'w plant a gall hyn fod yn ffactor pwysig, os nad y pwysicaf oll, wrth symud tŷ.

Mae **Cwestiwn 14** yn ystyried darpariaeth y gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned. Wrth i nifer y bobl oedrannus gynyddu'n o'i gymharu â nifer y bobl iau, un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl i aros mewn ardal neu symud i gymdogaeth am y tro cyntaf yw'r cyfleusterau iechyd sydd ar gael. Gallai cadw neu sefydlu cyfleusterau gofal iechyd mewn cymuned effeithio ar barhad yr iaith, yn enwedig lle mae canolfannau iechyd wedi dod yn fannau cyfarfod cymdeithasol, ac yn cynnal rhwydweithiau lleol Cymraeg eu hiaith. Mae prinder cyfleusterau'n gallu peri i bobl oedrannus symud, neu'n arwain at sefyllfa lle mae teuluoedd yn gwneud penderfyniad anodd i helpu perthnasau oedrannus symud i rywle arall.

Mae **Cwestiwn 15** yn ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau / cyfleusterau cymunedol neu hamdden. Gall gwahanol fathau o ddatblygiadau effeithio ar barhad a hyfywedd y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael, hyd yn oed os lleolir y datblygiadau newydd hynny gryn bellter i ffwrdd. Er enghraifft, gall datblygiad manwerthu mawr effeithio ar y gwasanaethau lleol ac ar rwydweithiau cymdeithasol y gymuned sy'n gweithredu fel mannau cyfarfod, gan gynnal cysylltiadau cymunedol, a defnydd o'r iaith. Gall penderfyniadau gan fusnesau mwy o faint i adleoli neu i gau safle hefyd effeithio'n ar wahanol garfanau o'r boblogaeth i wahanol raddau. Byddai hynny'n dibynnu ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat, a pha mor hwylus ydynt i bobl eu defnyddio. Gallai hefyd arwain at yr angen i symud tŷ a byddai hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar gynaliadwyedd y gymuned yn y tymor hir.

Mae **Cwestiwn 16** yn ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau. Gall gwahanol fathau o ddatblygiadau effeithio ar barhad a hyfywedd y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael, hyd yn oed os lleolir y datblygiadau newydd hynny gryn bellter i ffwrdd. Er enghraifft, gall datblygiad manwerthu mawr effeithio ar y gwasanaethau lleol ac ar rwydweithiau cymdeithasol y gymuned sy'n gweithredu fel mannau cyfarfod, gan gynnal cysylltiadau cymunedol, a defnydd o'r iaith. Gall penderfyniadau gan fusnesau mwy o faint i adleoli neu i gau safle hefyd effeithio ar wahanol garfanau o'r boblogaeth i wahanol raddau. Byddai hyn yn dibynnu ar ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat, a hwylustod mynediad atynt. Gallai hyn hefyd arwain

at yr angen i symud tŷ a byddai hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar gynaliadwyedd y gymuned yn y tymor hir.

Mae **Cwestiwn 17** yn troi at ystyriaethau cymdeithasol a diwylliannol. Mae rhai mathau o ddatblygiadau'n dueddol o achosi tensiynau cymdeithasol – er enghraifft, datblygiadau sy'n amlwg yn rhy fawr i'r gymuned, neu ddefnyddiau sy'n ymddangos yn anghydnaws â chymeriad / economi'r ardal dan sylw. Yn y gorffennol, gwelwyd protestio chwyrn yn erbyn datblygu pentrefi gwyliau mawr, ac felly hefyd gynigion i godi canolfannau lloches neu i gadw pobl ifanc yn y ddalfa. Ond yn aml, mae'n llai amlwg beth wnaiff achosi gwrthdaro. Gall datblygiadau i bobl ymddeol iddynt sy'n cyflawni galw allanol ysgogi aflonyddwch lleol; gallant arwain at ddyfodiad aelwydydd di-gymraeg. Yn yr un modd, gall canolfannau siopa newydd fygwth siopau lleol, sydd wedi bod yn rhan ganolog o'r gymuned ers blynyddoedd lawer. Gall y datblygiadau hyn achosi drwg deimlad. Yn sicr, gallant dramgwyddo yn erbyn gwerthoedd lleol ac arwain pobl i gredu nad yw ystyriaethau diwylliannol yn cael eu cymryd o ddifrif. Ar y cyfan, gallant nychu cymunedau Cymraeg eu hiaith.

**Mae rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol yn angor i draddodiad a diwylliant**

Mae **Cwestiwn 18** yn cydnabod y gall mathau gwahanol o ddatblygiadau arwain at golli siaradwyr Cymraeg i bob pwrpas neu ddod â phobl ddi-gymraeg i mewn. Os yw hynny'n digwydd, gall arwain at dorri cysylltiadau teuluol; chwalu rhwydweithiau cymdeithasol; a cholli cydlyniant cymdeithasol. Hefyd gall datblygiadau sy'n rhy fawr fod yn fygythiad diwylliannol, gan lastwreiddio neu chwalu'r rhwydweithiau hynny yr adeiladir traddodiadau arnynt.

**Cwestiwn 19** Gan adeiladu ar Gwestiwn 18, mae'r cwestiwn hwn yn cydnabod y gall colli cydlyniant cymdeithasol – ynghyd â datblygiadau y mae iddynt effeithiau anghymesur ar bobl iau - h.y. defnyddiau cyflogaeth newydd nad ydynt yn ateb anghenion lleol, neu dai sydd y tu hwnt i gyrraedd pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf – fod yn drychinebus i sefydliadau cymunedol. Gall y rhain fod yn ganolog i fwrlwm bywyd cymunedau Cymraeg. Unwaith y collir hwynt, ni welir byth mohonynt eto. Mae'n rhaid i Awdurdodau / grwpiau lleol dynnu ar yr wybodaeth sydd ganddynt am sefydliadau o'r fath (cyfraniad yr Urdd, eisteddfodau lleol ac ati), o ran eu bywiogrwydd cyfredol, ac effeithiau graddol datblygiadau a allai darfu ar y cydbwysedd cymdeithasol a chyfranogiad y bobl leol dros amser.

## 5. Atodiad 2: Data Sylfaenol

Cewch ystadegau ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn ogystal â gwybodaeth gyfredol am ymrwymiadau ar wefan y Cyngor:

www.ceredigion.gov.uk

Cewch ragor o wybodaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn uniongyrchol:

www.ons.gov.uk
www.nomisweb.co.uk

Anfonwch unrhyw gwestiynau neu ymholiadau i'r cyfeiriad canlynol:

Gwasanaethau Polisi Cynllunio ac Ymchwil
Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai
Neuadd Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
Ffôn: 01545 572123
E-bost: ldp@ceredigion.gov.uk

## 6. Atodiad 3: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl adrannau etholiadol (Cyfrifiad 2011).

| Adran Etholiadol | | 2001 | | | 2011 | | | Change 2001-2011 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pob un 3 oed a drosodd | Siaradwyr Cymraeg (nifer) | Siaradwyr Cymraeg (%) | Pob un 3 oed a drosodd | Siaradwyr Cymraeg (nifer) | Siaradwyr Cymraeg (%) | Pob un 3 oed a drosodd | Y di-Gymraeg (nifer) | Siaradwyr Cymraeg (nifer) | Siaradwyr Cymraeg (%) |
| 1 | Aberaeron | 1,478 | 954 | 65% | 1,390 | 832 | 60% | -88 | 34 | -122 | -5% |
| 2 | Aber-porth | 2,434 | 1,188 | 49% | 2,293 | 1,018 | 44% | -141 | 29 | -170 | -4% |
| 3 | Aberteifi - Mwldan | 1,693 | 1,066 | 63% | 1,721 | 1,012 | 59% | 28 | 82 | -54 | -4% |
| 4 | Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch | 1,201 | 771 | 64% | 1,180 | 658 | 56% | -21 | 92 | -113 | -8% |
| 5 | Aberteifi -Teifi | 1,153 | 581 | 50% | 1,117 | 524 | 47% | -36 | 21 | -57 | -3% |
| 6 | Aberystwyth - Bronglais | 1,902 | 818 | 43% | 2,041 | 745 | 37% | 139 | 212 | -73 | -7% |
| 7 | Aberystwyth - Canol | 2,146 | 612 | 29% | 2,447 | 652 | 27% | 301 | 261 | 40 | -2% |
| 8 | Aberystwyth - Gogledd | 1,930 | 611 | 32% | 2,618 | 639 | 24% | 688 | 660 | 28 | -7% |
| 9 | Aberystwyth - Penparcau | 2,979 | 1,191 | 40% | 3,005 | 1,095 | 36% | 26 | 122 | -96 | -4% |
| 10 | Aberystwyth - Rheidol | 2,402 | 837 | 35% | 2,686 | 819 | 30% | 284 | 302 | -18 | -4% |
| 11 | Beulah | 1,585 | 860 | 54% | 1,591 | 841 | 53% | 6 | 25 | -19 | -1% |
| 12 | Y Borth | 2,177 | 927 | 43% | 2,026 | 823 | 41% | -151 | -47 | -104 | -2% |
| 13 | Capel Dewi | 1,349 | 759 | 56% | 1,267 | 642 | 51% | -82 | 35 | -117 | -6% |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Ceulanamaesmawr | 1,862 | 1,051 | 56% | 1,848 | 977 | 53% | -14 | 60 | -74 | -4% |
| 15 | Ciliau Aeron | 1,954 | 1,141 | 58% | 1,926 | 1,040 | 54% | -28 | 73 | -101 | -4% |
| 16 | Faenor | 2,360 | 929 | 39% | 2,505 | 823 | 33% | 145 | 251 | -106 | -7% |
| 17 | Llanbedr Pont Steffan | 2,802 | 1,449 | 52% | 2,870 | 1,346 | 47% | 68 | 171 | -103 | -5% |
| 18 | Llannarth | 1,502 | 855 | 57% | 1,549 | 785 | 51% | 47 | 117 | -70 | -6% |
| 19 | Llanbadarn Fawr-Padarn | 1,236 | 502 | 41% | 1,013 | 414 | 41% | -223 | -135 | -88 | 0% |
| 20 | Llanbadarn Fawr-Sulien | 1,611 | 380 | 24% | 2,298 | 549 | 24% | 687 | 518 | 169 | 0% |
| 21 | Llandyfriog | 1,773 | 1,038 | 59% | 1,773 | 970 | 55% | 0 | 68 | -68 | -4% |
| 22 | Llandysiliogogo | 1,909 | 1,000 | 52% | 1,925 | 977 | 51% | 16 | 39 | -23 | -2% |
| 23 | Tref Llandysul | 1,473 | 1,031 | 70% | 1,398 | 888 | 64% | -75 | 68 | -143 | -6% |
| 24 | Llanfarian | 1,403 | 770 | 55% | 1,468 | 792 | 54% | 65 | 43 | 22 | -1% |
| 25 | Llanfihangel Ystrad | 1,989 | 1,254 | 63% | 1,973 | 1,123 | 57% | -16 | 115 | -131 | -6% |
| 26 | Llangeitho | 1,547 | 886 | 57% | 1,416 | 777 | 55% | -131 | -22 | -109 | -2% |
| 27 | Llangybi | 1,712 | 936 | 55% | 1,454 | 713 | 49% | -258 | -35 | -223 | -6% |
| 28 | Llanrhystud | 1,434 | 906 | 63% | 1,510 | 871 | 58% | 76 | 111 | -35 | -5% |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | Llansanffraid | 2,426 | 1,344 | 55% | 2,323 | 1,198 | 52% | -103 | 43 | -146 | -4% |
| 30 | Llanwenog | 1,829 | 1,193 | 65% | 1,788 | 1,058 | 59% | -41 | 94 | -135 | -6% |
| 31 | Lledrod | 2,170 | 1,290 | 59% | 2,149 | 1,166 | 54% | -21 | 103 | -124 | -5% |
| 32 | Melindwr | 2,105 | 1,094 | 52% | 1,956 | 967 | 49% | -149 | -22 | -127 | -3% |
| 33 | Y Ceinewydd | 1,089 | 511 | 47% | 1,048 | 435 | 42% | -41 | 35 | -76 | -5% |
| 34 | Pen-bryn | 2,040 | 1,067 | 52% | 2,003 | 971 | 48% | -37 | 59 | -96 | -4% |
| 35 | Pen-parc | 2,292 | 1,320 | 58% | 2,262 | 1,244 | 55% | -30 | 46 | -76 | -3% |
| 36 | Tirymynach | 1,818 | 1,091 | 60% | 1,837 | 1,006 | 55% | 19 | 104 | -85 | -5% |
| 37 | Trefeurig | 1,617 | 934 | 58% | 1,713 | 967 | 56% | 96 | 63 | 33 | -1% |
| 38 | Tregaron | 1,186 | 809 | 68% | 1,173 | 785 | 67% | -13 | 11 | -24 | -1% |
| 39 | Troed-yr-aur | 1,372 | 805 | 59% | 1,272 | 647 | 51% | -100 | 58 | -158 | -8% |
| 40 | Ystwyth | 1,943 | 1,154 | 59% | 2,015 | 1,175 | 58% | 72 | 51 | 21 | -1% |
| Ceredigion | | 72,833 | 37,915 | 52% | 73,847 | 34,964 | 47% | 964 | 3,915 | -2,951 | -5% |